# Minutes

## Cyngor

Date: Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2022

Time: 5.00 pm

Present: Councillors C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, A Screen, L James, T Harvey, M Howells, P Bright, J Peterson, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, C Baker-Westhead, J Reynolds, R Howells, A Sterry, J Jones, G Horton, J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, D Fouweather, D Harvey, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Spencer, K Thomas, C Townsend, T Watkins, K Whitehead, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, A Morris, F Hussain and B Perkins

---

1. **Rhagofynion**

**1.i Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**1.ii Datgan Buddiant**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**1.iii Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol**
Dywedodd yr Aelod Llywyddol mai dyma oedd cyfarfod olaf Gareth Price, Swyddog Monitro.

Achubodd yr Arweinydd, y Cynghorwyr Evans, Whitehead, Jordan, Morris ac Al-Nuaimi oll ar y cyfle i ddweud ychydig eiriau personol o ddiolch wrth Gareth am ei waith caled a'i gefnogaeth dros ei 39 o flynyddoedd yn gweithio i'r Cyngor, gan ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddo.

Diolchodd y Prif Weithredwr hefyd i Gareth am ei waith rhagorol a'i gryfder a'i gefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ategodd yr Aelod Llywyddol hefyd sylwadau'r cydweithwyr. Byddai drws Gareth bob amser ar agor. Mynegodd yr Aelod Llywyddol hefyd ddiolch i Gareth am ei gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

Mynegodd Gareth Price hefyd ychydig o eiriau o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

2. **Cofnodion**

Cofnodion 27 Medi 2022, yn amodol ar y canlynol:

Roedd y Cynghorydd Lauren James wedi'i nodi'n bresennol, ond roedd hi wedi gyrru ymddiheuriad.
Dylai Eitem 3, Penodi Cynghorwyr, fod wedi cyfeirio at y Cynghorydd Clarke yn hytrach na'r Cynghorydd James.

3. **Penodiadau**

Cynigiodd y Cynghorydd Clarke y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a nodir isod.
Eiliwyd y penodiadau gan y Cynghorydd Fouweather a'u rhoi i bleidlais.

**Penderfynwyd:** Cytuno ar y penodiadau a nodir yn yr adroddiad i'r Cyngor, ynghyd â'r penodiadau ychwanegol a ganlyn.

| **Corff Llywodraethol** | **Nifer y Lleoedd Gwag / Ailbenodiadau** | **Enwebiadau a Gafwyd** |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Llanwern | Ailbenodi | Mark Spencer |
| Ysgol Sain Silian | Ailbenodi | Deborah Davies |
| Ysgol Sain Silian | Ailbenodi | Tracy McKim |
| Ysgol Sain Silian | Ailbenodi | Phillip Hourahine |
| Ysgol Gynradd Glan Wysg | Newydd | Paul Bright |
| Ysgol Gynradd Pillgwenlli | Newydd | Saeed Adan |

4. **Materion yr Heddlu**

wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyngor am faterion yr Heddlu yn Nwyrain, Gorllewin a Chanol Casnewydd.

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Arweinydd ofyn cwestiwn i'r Prif Arolygydd Lawton.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Arolygydd am gefnogaeth a gafwyd gan yr Heddlu ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan y Cyngor, fel yr Ŵyl Fwyd, Sul y Cofio a dathliad goleuadau'r Nadolig.

Ar ran aelodau'r ward a'r trigolion, diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Arolygydd am bresenoldeb parhaus yr Heddlu yn Ward Malpas, yn arbennig, o amgylch Ffordd Pillmawr dros yr wythnos ddiwethaf.

<u>Cwestiynau i'r Heddlu a godwyd gan y Cynghorwyr:</u>

- Gofynnodd y Cynghorydd Morris a oedd unrhyw newyddion ynghylch canllawiau gan Senedd y Deyrnas Unedig ar feiciau trydan  Wrth i'r Nadolig nesáu, roedd ymgyrch diogelwch lleol yn cael ei lansio i annog rhieni i brynu cyfarpar diogelwch a llyfr cod y ffordd fawr wrth brynu e-feic er mwyn diogelu plant ifanc.  Roedd y Cynghorydd Morris a chydweithwyr y ward wedi cyfarfod â Jessica Morden, AS y DU a'r Heddlu.  Dywedodd y Prif Arolygydd fod yr Heddlu yn dal i ddisgwyl am wybodaeth.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y ffaith bod Ceiswyr Lloches a ffoaduriaid yn cael eu lleoli yng Nghasnewydd heb i'r heddlu gael gwybod am hynny.  Gan nad oedd hyn yn peri problem yn achos y rhan fwyaf o leoliadau, ond gallai pobl â chefndiroedd troseddol fod yn cael eu lleoli yn y ddinas.  A allai'r Heddlu wneud unrhyw beth i unioni hyn? Dywedodd y Prif Arolygydd fod yr Heddlu, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol, yn cael gwybod gan y Swyddfa Gartref os oedd unrhyw droseddwr yn cael ei leoli yma. Roedd yr Heddlu yn dibynnu ar y Swyddfa Gartref i dderbyn yr wybodaeth hon.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cleverly at y tanau diweddar yn ardal Betws.  Roedd un digwyddiad yn cynnwys perchennog siop sglodion lleol, lle cafodd ei gar danfon ei roi ar dân, a digwyddiad arall yn cynnwys preswylydd yn Lambourne Hill, lle cafodd ei gar ef

hefyd ei roi ar dân. Nid oedd y Prif Arolygydd yn gwybod am hyn, a byddai'n ymchwilio i'r digwyddiadau ac yn adrodd yn ôl wrth y Cynghorydd Cleverly.

- Mynegodd y Cynghorydd Harvey ddiolch i'r Prif Arolygydd ar ran cydweithwyr a phreswylwyr ward Alway am y mentrau strydoedd diogelach. Darparwyd larymau ffenestr a marciau dŵr diogel, a groesawyd gan y preswylwyr. Pan gyflwynwyd y cynnig, dywedodd y Prif Arolygydd mai dyna oedd o swm mwyaf o arian yr oeddent wedi'i dderbyn gan y Swyddfa Gartref. Rhan o'r fenter hefyd oedd ymchwilio i'r achosion wrth wraidd ymddygiad gwrthgymdeithasol a dioddefwyr troseddau.

- Soniodd y Cynghorydd Whitehead am adroddiad diweddar y Ward, a'i fod wedi sylwi ar gynnydd sydyn mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig yn ardal siopa Betws. Roedd yr heddlu wedi addo patrolau, ond nid oedd y preswylwyr am i'r heddlu gynnal patrolau yn yr ardal ddwy neu dair gwaith am gyfnod o wythnos. Byddai'n well gan breswylwyr weld patrolau rheolaidd dros gyfnod hirach. Dywedodd y Prif Arolygydd nad oedd modd cynllunio adnoddau, a bod atebion eraill hirdymor ar gael, a ffyrdd eraill i atal ymddygiad yn hytrach na phatrolau, fel adnabod y rhai a oedd yn troseddu.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Watkins at rai sy'n 'criwsio' mewn ceir, gan ofyn faint a gafodd eu herlyn o'r 120 a riportiwyd. Nid oedd gan y Prif Arolygydd yr wybodaeth wrth law, ond byddai gan y tîm plismona lleol yr wybodaeth honno, felly byddai'r Prif Arolygydd yn adrodd yr wybodaeth honno'n ôl wrth y Cynghorydd Watkins.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd James at achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr oedd wedi'i weld yn ddiweddar yng ngorsaf fysiau canol y ddinas, gan ddweud y gallai hyn fod yn frawychus i breswylwyr ar adegau penodol o'r dydd. Pa waith oedd yn cael ei wneud er mwyn galluogi preswylwyr i hysbysu'r heddlu am achosion, gan wybod y byddai'r heddlu yn mynd ar drywydd yr achosion hynny. Dywedodd y Prif Arolygydd y byddai'r tîm plismona cymdogaeth yn adolygu galwadau. Roedd Dinas Ddiogel ar waith yn ystod economi'r nos, ond byddai'r Prif Arolygydd yn cysylltu â'r tîm plismona cymdogaeth i drafod digwyddiadau yn ystod y dydd.

- Mynegodd y Cynghorydd Adan bryder ynghylch cistiau ocsid nitrus. Nid oedd meddu ar y cistiau hyn yn drosedd. Pa fesurau oedd ar waith gan yr heddlu yn gysylltiedig â defnyddio'r cistiau hyn a'u cyflenwi fel cyffur adloniant, a hefyd i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol? Dywedodd y Prif Arolygydd y byddai swyddogion cyswllt ysgolion yn mynd ar drywydd hyn, ac roedd y prif waith yn gysylltiedig â hyn yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hi'n bwysig creu cysylltiadau â'r ysgolion i addysgu plant ynghylch sylweddau a reolir yn ogystal â sylweddau anghyfreithlon.

- Diolchodd yr Aelod Llywyddol i'r Prif Arolygydd a'r Rhingyll Turner am gyfarfod llwyddiannus â Wardiau Shaftesbury, Malpas a Betws, a oedd yn fuddiol iawn, a gobeithiai y byddai'r cyfarfodydd yn parhau. Yn olaf, diolchodd yr Aelod Llywyddol i'r Prif Arolygydd Lawton am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 5. Cynllyn Corfforaethol

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Arweinydd gyflwyno a chynnig yr argymhellion yn yr adroddiad.

Yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd yn ofynnol i Gyngor Casnewydd ddatblygu mewn modd cynaliadwy i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Roedd hi'n ddyletswydd ar y Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol i gefnogi dinasyddion, busnesau a rhanddeiliaid. Roedd y Cynllun hwn yn rhoi'r flaenoriaeth i ffocws strategol hirdymor y Cyngor ac yn bodloni gofynion y Ddeddf Llesiant.

Cafodd Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor (2022-27) ei ddatblygu drwy gyfres o weithdai rhwng uwch swyddogion ac Aelodau Cabinet y Cyngor.

Roedd y Cynllun hwn hefyd yn ystyried y cyfleoedd a'r risgiau byrdymor a hirdymor i'r Cyngor, ei breswylwyr, ei economi a'r amgylchedd.

Wrth ddatblygu'r Cynllun, roedd y Cyngor wedi ymgynghori â phreswylwyr ar themâu'r Amcan Llesiant, ac fe groesawyd y themâu hynny.

Dros y pum mlynedd nesaf, datganiad cenhadaeth Cyngor Casnewydd fyddai gweithio i sicrhau *'Casnewydd uchelgeisiol, decach a gwyrddach i bawb.'*

I gefnogi'r nod hwn, byddai pedwar Amcan Llesiant yn cael eu gosod i gyflawni'r blaenoriaethau strategol hyn:

1. **Yr Economi, Addysg a Sgiliau** - Mae Casnewydd yn ddinas sy'n ffynnu ac yn tyfu, sy'n cynnig addysg ardderchog ac yn anelu i gynnig cyfleoedd i bawb.
2. **Yr Amgylchedd a Seilwaith** – Mae Casnewydd yn ddinas sy'n ceisio gwarchod a gwella ein hamgylchedd gan leihau ein hôl troed carbon a pharatoi am ddyfodol cynaliadwy a digidol.
3. **Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymunedol o Safon** - Mae Casnewydd yn ddinas gefnogol lle mae cymunedau a gofal wrth galon yr hyn a wnawn.
4. **Cyngor Cynhwysol, Teg a Chynaliadwy** - Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sefydliad cynhwysol sy'n rhoi lle creiddiol i werth cymdeithasol, tegwch a chynaliadwyedd

Byddai'r pum mlynedd nesaf yn heriol wrth inni gydbwyso Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a chyflawni ein blaenoriaethau strategol ar yr un pryd. Byddai angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau arloesol a thrawsnewidiol, ac mae'n rhaid cydnabod nad yw Cyngor Dinas Casnewydd yn gallu cyflawni'r amcanion hyn ar ei ben ei hun. Dyma pam y cadwyd at egwyddorion allweddol drwy gydol y broses o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol:

- **Teg a Chynhwysol -** Byddwn yn gweithio i greu cyfleoedd tecach, i leihau anghydraddoldeb yn ein cymunedau, ac i annog ymdeimlad o berthyn.
- **Grymuso -** Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, grwpiau a phartneriaid ac yn eu cefnogi i ffynnu.
- **Cyngor sy'n gwrando -** Bydd barn cymunedau, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid yn llywio'r gwasanaethau a ddarparwn a'r lleoedd yr ydych yn byw ynddynt.
- **Canolbwyntio ar y Dinesydd -** Bydd pawb sy'n gweithio ac yn cynrychioli Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi'r dinesydd yn gyntaf, gan ganolbwyntio ar werthoedd creiddiol ein sefydliad.

Byddai'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cael ei danategu gan raglenni a phrosiectau allweddol gyda'r nod o wella economi a chymunedau Casnewydd a darparu gwasanaethau'r Cyngor.
Byddai pob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn datblygu cynllun gwasanaeth a fyddai'n amlinellu ei flaenoriaethau strategol ei hun i gefnogi cyflawni Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd a gwella gwasanaethau'r Cyngor yn barhaus.

Er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni, byddai Cynlluniau Gwasanaeth. yn cael eu monitro drwy gydol y pum mlynedd ac adroddiadau amdanynt yn cael eu cyflwyno gerbron Pwyllgorau Craffu'r Cyngor, y Cabinet a'r Cyngor.

Cynigodd yr Arweinydd y dylai'r Cyngor gytuno ar y Cynllun Corfforaethol a'i fabwysiadu, ac eiliwyd hynny gan y Dirprwy Arweinydd.

<u>Sylwadau gan y Cynghorwyr:</u>

- Roedd y Cynghorydd Evans yn cytuno â nodau ac amcanion y cynllun, ond roedd pryderon ynghylch canol y ddinas, gyda'r Brifysgol i bob pwrpas yn cefnu ar Gyngor Dinas Casnewydd. Gobeithiwyd y byddai ymgynghoriad ystyrlon yn cael ei gynnal â'r preswylwyr. Byddai'r blaid geidwadol hefyd yn monitro'r cynllun yn agosach dros y blynyddoedd nesaf, ond yn cefnogi'r cynllun.

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Davies pa mor bwysig oedd gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd hon yn ymagwedd gydweithredol ar sail leol a chenedlaethol. Roedd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar bob un ohonom. Roedd y Cynghorydd Davies o blaid y Cynllun.

- Roedd y Cynghorydd Corten yn falch ein bod fel cyngor yn gallu wynebu'r newid hinsawdd. Roedd Casnewydd eisoes wedi dangos ei bod ar y blaen fel un o'r goreuon drwy'r wlad am ailgylchu.

- Roedd y Cynghorydd Cocks o blaid y cynllun. Er nad oedd yn breswylydd leol, roedd wedi dewis symud i Gasnewydd gan fod ganddi gymaint o'i phlaid o ran treftadaeth hanesyddol ac fel lle i weithio, a hefyd fel porth i Gymru. Roedd hi hefyd yn ddinas wych oherwydd ei phobl. Roedd y cynllun yn cynnig gweledigaeth gyffrous i Gasnewydd, felly roedd y Cynghorydd Cocks o blaid y cynllun.

- Roedd y Cynghorydd Harvey yn falch iawn o'r Cynllun Corfforaethol ac yn annog pob aelod o'r Cyngor i'w gymeradwyo.

- Soniodd y Cynghorydd Forsey ei bod yn fraint cael cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Casnewydd, a chyfeirio at Amcan 2, Amgylchedd a Seilwaith Casnewydd. Roedd y Cyngor yn cynllunio i fod yn ddinas carbon sero net erbyn 2030. Roeddem eisoes yn gweld effeithiau'r newid hinsawdd. Roedd hi'n hanfodol felly ein bod yn cadw at ein cynllun lleihau carbon. Roedd y Cyngor hefyd yn gweithio tuag at wastraff sero net, ac roedd ganddo system ailgylchu dda ar waith. Roedd angen i'r Cyngor weithio gyda busnesau, ac fel preswylwyr dylem ninnau chwarae ein rhan.

- Soniodd y Cynghorydd Hourahine y byddai'r amcanion yn cael eu cyflawni drwy waith caled ac ymroddiad, nid yn unig gan y cabinet a chynghorwyr neu gan staff a swyddogion y Cyngor, sy'n gweithio'n galed iawn bob dydd er mwyn helpu i gyflawni nodau'r amcanion. Roedd gwaith peirianneg o safon fyd eang yn cael ei gyflawni yng Nghasnewydd i gefnogi datblygiad economaidd y ddinas. Roedd y Cynghorydd Hourahine yn falch o weld cynifer o fusnesau bach yn dod i'r amlwg yn y dref. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hourahine at yr adroddiad, a nodai fod angen ymateb i anghenion byrdymor y gymuned. Byddai angen neilltuo arian ar gyfer yr achosion hynny na ellir eu rhagweld. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymdopi'n rhyfeddol o dda â'r dirywiad economaidd a Covid, a dylid cydnabod hynny. Byddai partneriaethau ag Awdurdodau Lleol yn ein helpu i gyflawni ein nodau hirdymor ar gyfer y ddinas a byddai buddsoddiad strategol yn dilyn ac yn annog cenedlaethau'r dyfodol i aros yng Nghymru.

  Bryd hynny, gofynnodd y Cynghorydd Evans am bwynt o eglurhad, gan ei fod yn teimlo bod y Cynghorydd Hourahine wedi cymryd yr hyn yr oedd y Cynghorydd Evans wedi'i ddweud allan o'r cyd-destun. Nid oedd y Cynghorydd Evans yn lladd ar Gasnewydd.

- Roedd y Cynghorydd Routley yn cefnogi nodau ac amcanion yr adroddiad, a byddai grŵp yr Wrth-blaid yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau y byddai'r weinyddiaeth yn

cyflawni'r hyn a oedd wedi'i gynnig yn yr adroddiad, ac roeddent bob amser wedi cefnogi Casnewydd.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Clarke at bwyntiau allweddol o fewn yr adroddiad, sef tegwch, bod yn gynhwysol, grymuso, bod yn Gyngor sy'n gwrando a chanolbwyntio ar ddinasyddion.

- Roedd y Cynghorydd Morris a'i gydweithwyr o blaid y cynllun. Roedd yn gam i'r cyfeiriad cywir. Byddai wedi hoffi gweld mwy o gefnogaeth i'r genhedlaeth o bobl ifanc yn eu harddegau, a oedd yn cael eu gadael ar ôl. Byddai wedi bod yn braf rhoi sicrwydd i'r bobl ifanc y byddai Casnewydd yn gwella ar eu cyfer hwy.

- Roedd y Cynghorydd Drewett o blaid y cynllun, yn falch o Gasnewydd a'i hanes, o'r lle yr oedd wedi cyrraedd heddiw a'r modd y byddai'n datblygu yfory. Roedd angen inni gydweithio fel cynghorwyr i ysgogi'r ddinas i symud ymlaen.

- Roedd y Cynghorydd L James o blaid yr adroddiad, ond yn teimlo bod ymddygiad y Cyngor yn gysylltiedig â'r adroddiad yn amhriodol ac yn fygythiol. Byddai'r Cynghorydd wedi hoffi gweld mwy o gynnwys yn gysylltiedig ag ardaloedd rheoli ansawdd yr aer. Nodwyd yn y cynllun y byddai'r Cyngor yn gwella ansawdd yr aer, ond ddim i ba raddau. Teimlai'r Cynghorydd James ei bod am sicrhau'r gorau i Gasnewydd, a gobeithiai fod yr holl gynghorwyr o'r un farn.

- Roedd y Cynghorydd Horton, perchennog busnes bach, o blaid y cynllun busnes.

- Roedd y Cynghorydd Baker-Westhead yn gweithio i Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Lleng Rufeinig, ac yn ansicr a oedd angen iddi ddatgan buddiant yn y cynllun. Cadarnhaodd y swyddog monitro nad oedd angen iddi ddatgan buddiant.

- Roedd y Cynghorydd Fouweather o blaid y cynllun corfforaethol ac yn teimlo bod talent i'w gael ar draws y ddinas, a bod angen sicrhau bod y talent hwnnw'n cydweithio â ni. Dylem gydweithio i fwrw ymlaen â'r cynllun hwn.

- Roedd y Cynghorydd Whitehead o blaid y cynllun corfforaethol. Teimlai'r Cynghorydd Whitehead fod y Cynghorydd L James wedi codi rhai pwyntiau pwysig.

- Cododd y Cynghorydd Forsey bwynt o eglurhad o dan Amcan 2, eitem 5, trawsnewid

  system briffyrdd a thrafnidiaeth Casnewydd i wella ansawdd yr aer, felly roedd ymrwymiad wedi'i gynnwys yn y Cynllun.

- Diolchodd yr Arweinydd i bawb am eu mewnbwn, ac roedd hi'n galonogol gweld cynifer o gynghorwyr â diddordeb yn y cynllun corfforaethol. Pwysigrwydd partneriaethau economaidd yn y cynllun hwn a'r gefnogaeth i fusnesau. Gallai cydweithwyr olrhain yr amcanion hyn drwy'r Pwyllgorau Craffu a dwyn y Cabinet i gyfrif. Roedd hwn yn gynllun uchelgeisiol yr oedd trigolion Casnewydd yn ei haeddu. Roedd hi'n bwysig hefyd cael 51 o gynghorwyr, a oedd gyda'i gilydd yn cynrychioli'r Cyngor, a chanddynt ymrwymiad moesol a moesegol i ddinasyddion, ac a oedd hefyd yn atebol i'r dinasyddion hynny.

  Cynigiwyd mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol, a phleidleisio'n unfrydol o blaid hynny.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn mabwysiadu Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-27.

6. **Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Arweinydd gyflwyno'r eitem nesaf, sef Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar y cynnydd yn erbyn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. O dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) roedd yn ofynnol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb strategol a geir yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

Datblygwyd Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Casnewydd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol a buont yn destun ymgysylltu helaeth â'r gymuned.

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb Strategol ei adolygu gan Bwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu a Chabinet y Cyngor, ac roedd eu sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Roedd effaith y pandemig yn parhau i achosi heriau wrth gyflawni yn erbyn rhai meysydd gwaith yn 2021/22, ond roedd gwaith cydraddoldeb Casnewydd yn parhau i fod yn hyblyg, gan ymateb i heriau a oedd yn dod i'r amlwg, yn enwedig yn gysylltiedig â mynediad at wybodaeth, addysg a mynd i'r afael â throseddau casineb.

Rhoddodd yr Arweinydd uchafbwyntiau o'r flwyddyn ddiwethaf i'w gydweithwyr yn y Cyngor, gan gynnwys yr hyfforddiant Arweinyddiaeth Gynhwysol a gwblhawyd gan bron 300 o Uwch Arweinwyr a Rheolwyr a phenodiad diweddar yr Arweinydd fel Llefarydd CLILC dros Gydraddoldeb, Mudo ac Atal Tlodi.

Roedd dyddiadau arwyddocaol, fel Mis Hanes LGBT+, Ramadan, Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Pride, Wythnos Ffoaduriaid, Diwrnod Windrush, Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Mis Hanes Pobl Ddu ac Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb oll yn cael eu cydnabod a'u hyrwyddo ar draws y ddinas.
Roedd Asesiadau Effaith Tegwch a Chydraddoldeb, gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn erbyn polisi/penderfyniadau, yn cael eu cynnal yn barhaus yn erbyn ystod o benderfyniadau. Cyfeiriwyd at ein harfer da yn ddiweddar mewn adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru.

Dosbarthwyd £415,000 i 79 o brosiectau cymunedol, a oruchwyliwyd gan grŵp llywio cymunedol cynrychioliadol, gan gydweithio'n agos â Chomisiwn Tegwch Casnewydd.

Roedd rhwydweithiau staff ar gyfer staff anabl, LGBTQ+ a lleiafrifol ethnig yn parhau i gynnig llwyfan i staff o grwpiau wedi'u tangynrychioli gael dylanwadu ar bolisi'r gweithlu, darpariaeth gwasanaeth a phenderfyniadau strategol.

Yn sgil y gefnogaeth sylweddol a roddwyd i Ddinasyddion yr UE yng Nghasnewydd, bu modd i breswylwyr cymwys gyflwyno ceisiadau hwyr i Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE ar ôl y dyddiad cau.

Cyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth i aelodau uwch o staff gwasanaethau cwsmeriaid ar Gydraddoldeb, Troseddau Casineb a Chynllun Preswylion Sefydlog yr UE.

Paratoi ysgolion am ofynion y Cod Addysg Statudol Cydberthynas a Rhywioldeb.

Yn ystod y flwyddyn cafodd dros 2,665 o bobl gefnogaeth drwy gynlluniau cymorth lle bo'r angen i gael mynediad at lety a chadw llety, gan gynnwys oedolion ag anableddau dysgu a ffoaduriaid.

Arhosodd cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig y cyngor yn debyg eleni er gwaethaf cynnydd bach yn nifer y staff, ac roedd ein bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau wedi gostwng dros y cyfnod.

Roedd gan y Cyngor waith i'w wneud o hyd i wella'r gynrychiolaeth o staff lleiafrifol ethnig ar bob lefel o fewn y sefydliad, a dyma fyddai ffocws ein gwaith yn ystod 2022/23.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid derbyn adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gofynnodd i'r Aelod Llywyddol a allai'r Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol eilio'r cynnig a dweud ychydig eiriau.

Eiliodd y Cynghorydd Batrouni y cynnig ac ychwanegu bod yr adroddiad yn grynodeb o'[r gwaith a gyflawnwyd yn ystod ail flwyddyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd yn nodi ymrwymiad y Cyngor i ddiwylliant yn y gweithle a dull o ddarparu gwasanaethau sy'n gwerthfawrogi cynhwysiant ac amrywiaeth.

Byddai'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn dros y 12 mis nesaf. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer y cyfnod nesaf yn seiliedig ar adolygiad o ddata ein gweithlu a cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Byddai Grŵp Aelodau a Swyddogion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn parhau i gefnogi cyflawniad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i sicrhau bod gan y Cyngor ymagwedd arloesol a'i fod yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd effeithiol.

<u>Sylwadau gan y Cynghorwyr:</u>

- Canolbwyntiodd y Cynghorydd Batrouni ar broses y gyllideb gyfranogol; Cafodd 79 o grwpiau cymunedol elwa ar dros £400,000 o gyllid y llynedd, ac roedd y cynllun ar agor eleni, ac yn cynnwys £300,000 o gyllid. Anogwyd cynghorwyr i ddweud wrth bobl am gysylltu â'r cyngor i gael cyllid. Diolchodd y Cynghorydd Batrouni hefyd i'w ragflaenydd, y Cynghorydd Mayer, am ei waith a amlygwyd yn yr adroddiad blynyddol.

- Dywedodd y Cynghorydd Davies mai agwedd allweddol ar y cynllun oedd gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a weithredwyd gan LIC o fis Mawrth 2021, ac roedd hi'n dda gweld hynny wedi'i ymwreiddio o fewn yr awdurdod. Ei ddiben oedd lleihau canlyniadau anghyfartal i breswylwyr.

- Roedd y Cynghorydd Cocks wrth ei fodd â'r balchder a oedd yn cael ei ddangos yn y cynllun mewn gwaith yn gysylltiedig â chydraddoldeb, ac roedd hynny'n dangos ymrwymiad y Cyngor i'r grwpiau hyn. Roedd hefyd yn dathlu'r gwaith da a wnaed, ac roedd pwyslais ar ddata ac ymgysylltu.

- Roedd y Cynghorydd Al-Nuaimi o blaid yr adroddiad a'r materion a oedd wedi'u cynnwys o dan ansawdd strategol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Al-Nuaimi hefyd at gydraddoldeb, a oedd wedi dod o le pell o fewn y cyngor. Serch hynny, roedd pryder ynghylch Islamoffobia yng Nghasnewydd, ac roedd y Cyngor Mwslimiaid wedi cysylltu â'r Cynghorydd Al-Nuaimi ac yn teimlo y byddai ymgysylltu drwy'r grŵp cydraddoldeb strategol drwy wahodd pobl o'r cymunedau Mwslimaidd o fudd i'r Cyngor, a gobeithiai y byddent yn ystyried sut i ymgysylltu ymhellach.

- Roedd y Cynghorydd Hussain o blaid y cynllun ac eisiau eilio'r hyn yr oedd y Cynghorydd Batrouni wedi'i ddweud ynghylch y gyllideb gyfranogol, ac roedd ef ei hun wedi gweld prosiectau a gyflawnwyd ym Maendy a Fictoria. Roedd yn galonogol gweld cyllid a'r gyllideb yn mynd tuag at brosiectau haeddiannol.

- Diolchodd yr Arweinydd i'w gydweithwyr am roi sylw i'r adroddiad. Cydnabu'r Arweinydd hefyd y gwaith a ysgogwyd gan aelodau blaenorol y Cabinet, Whitcutt a'r Cynghorydd Mayer, ond roedd llawer o waith yn dal i'w wneud. Roedd yr Arweinydd yn ymwybodol bod yr Aelod Cabinet wedi ymgysylltu â'r Cynghorydd Al Nuaimi ac y byddai hynny'n cael ei ddatblygu ymhellach o hyn allan.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig a phleidleisio'n unfrydol o'i blaid.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a chyhoeddi'r adroddiad wefan y Cyngor, yn unol â chanllawiau statudol.

7. **Adroddiad Blynyddol Cynllun Newid Hinsawdd**

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Arweinydd gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor, sef yr adroddiad blynyddol rhagarweiniol ar gyfer ein Cynllun Newid Hinsawdd.

Fel sefydliad sy’n gyfrifol yn fyd-eang, datganodd y Cyngor argyfwng ecolegol a hinsawdd fis Tachwedd diwethaf a dywedodd y byddai’r Cyngor yn:

- Datblygu cynllun Sefydliadol clir ar gyfer y Newid Hinsawdd, mewn ymgynghoriad â dinasyddion, ar gyfer y pum mlynedd nesaf a fyddai'n nodi'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni hynny.
- Ym mis Mawrth eleni cytunodd y Cyngor ar y Cynllun Newid Hinsawdd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Roedd y cynllun hwn yn esbonio sut y byddem:
  Yn gostwng allyriadau carbon y cyngor i sero net erbyn 2030
  ac
  Yn adolygu'r gwasanaethau yr oedd y cyngor yn eu darparu i sicrhau ei fod yn cefnogi taith y ddinas tuag at garbon sero net a hefyd wrth ymaddasu i effeithiau'r newid hinsawdd.

Roedd y cynllun yn weithredol o 2022-2027, ac adroddiad rhagarweiniol oedd hwn a esboniai ein sefyllfa ar ddechrau'r cynllun ac a fanylai ar rai o'r prosiectau pwysig a oedd eisoes ar y gweill.

Roedd y cynllun yn ddogfen allweddol i'r Cyngor ac erbyn hyn yn pennu ein trywydd fel sefydliad er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a'u heffeithiau.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid derbyn yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelod Llywyddol a allai'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth eilio'r cynnig a dweud ychydig eiriau.

Eiliodd y Cynghorydd Forsey y cynnig a dweud wrth ei gydweithwyr fod y Cyngor eisoes wedi cyflwyno gostwng allyriadau carbon i raddau sylweddol, gan ragori ar y targedau a osodwyd yn y Cynllun Rheoli Carbon. Roedd y Cynghorydd Forsey yn edrych ymlaen i weld gostyngiadau pellach wrth inni barhau i ôl-osod adeiladau cyngor, a sicrhau cynnydd pellach yn nifer y cerbydau trydan o fewn ein fflyd.

Er hynny, roedd llawer mwy i'w wneud o hyd fel sefydliad i liniaru ac ymaddasu i'r argyfyngau natur a hinsawdd, ac roedd ein Cynllun Newid Hinsawdd yn ein gosod ar y trywydd iawn ar gyfer y daith honno, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar ran cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Fel Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros y newid hinsawdd a bioamrywiaeth, roedd y Cynghorydd Forsey yn falch o weld yr adroddiad rhagarweiniol cadarnhaol hwn, a byddai'n monitro cynnydd y cynllun yn agos ac yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd i sicrhau ein bod yn parhau i fwrw ymlaen ar y cyflymder angenrheidiol.

<u>Sylwadau gan y Cynghorwyr:</u>

- Argymhellodd y Cynghorydd Davies y dylai'r cynghorwyr wylio'r animeiddiad drwy glicio ar ddolen ar glawr yr adroddiad. Roedd y Cynghorydd Davies yn falch fod ysgolion wedi'u cloi i mewn i'r cynllun hwn. Roedd Basaleg yn cael ei chodi ar ffurf ysgol niwtral o ran

carbon, ac roedd ffocws hefyd ar ôl-osod, fel y gwelwyd eisoes yn Ysgol Feithrin Kimberley - Ysgol Bryn Derw bellach - lle gosodwyd dau bwmp gwres ffynhonnell aer. Byddai cyfarpar hefyd yn cael ei ôl-osod mewn ysgolion eraill ledled Casnewydd fel eu bod yn garbon sero net o hynny allan. Roedd hi'n braf gweld bod plant yn gweithio gydag athrawon i fynd i'r afael â hyn. Roedd pobl ifanc hefyd wedi datblygu i fod yn hyrwyddwyr, yn siarad ar y llwyfan genedlaethol.

- Roedd y Cynghorydd Routley o'r farn fod y cynllun yn gynllun da a fyddai'n diogelu dyfodol preswylwyr Casnewydd. Er hynny, roedd y Cynghorydd Routley yn siomedig nad oedd unrhyw gynllun arall er mwyn helpu i leihau'r pwysau ar yr M4 - roedd hyn cael effaith ar breswylwyr a chymunedau ar hyd coridor yr M4.

- Cytunodd y Cynghorydd Fouweather hefyd ei bod yn ddogfen dda ac roedd yn awyddus i ddarllen am adeiladau ac ysgolion newydd y cyngor. Teimlai'r Cynghorydd Fouweather fod y Ganolfan Ddinesig yn adodd enfawr, o safbwynt cost ynni. Roedd yn rhaid gwella mynediad ar y ffyrdd hefyd, a sicrhau bod mwy o fysiau a threnau'n hygyrch.

- Roedd y Cynghorydd Cleverly o blaid y cynllun.

- Roedd y Cynghorydd Corten o blaid y cynllun.

- Roedd y Cynghorydd L James yn cefnogi'r cynllun, ond teimlai y gallai'r adroddiad gynnwys manylion pellach. Dogfen nodau oedd hon yn hytrach na chynllun gwirioneddol a theimlai fod y cyhoedd a'r cyngor yn haeddu mwy o fanylion. Dylid canolbwyntio mwy ar yr 11 o ardaloedd rheoli ansawdd yr aer, fel Ffordd Malpas.

- Pwysleisiodd yr Arweinydd y byddai cyfle i'r cynghorwyr drafod a chodi unrhyw faterion drwy'r broses graffu. Dywedodd yr Arweinydd mai trafnidiaeth amgen oedd y prif ffocws. Roedd yr Arweinydd wedi ymweld â llwybr teithio llesol y Gaer yn ddiweddar, drwy ymgynghoriad â'r preswylwyr, ac roedd y llwybr hwnnw'n gyfleuster gwych i'r preswylwyr. Roedd y Cabinet yn ymchwilio'n barhaus i gynlluniau trafnidiaeth amgen. Gan weithio gyda Chomisiwn Burns roedd mesurau'n cael eu rhoi ar waith Roedd gwelliannau i'w gwneud o hyd, ond roedd yr ansawdd yn gwella. Cafwyd ymweliad diweddar gan Ddirprwy Weinidog, pan agorwyd siop storio beiciau newydd yng Nghasnewydd. Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddinasyddion, ac nid oedd yn gynllun a gafodd ei orfodi arnom. O ran y rheilffyrdd, roedd adroddiad Comisiwn Burns yn cynnwys argymhellion am orsafoedd ychwanegol. Network Rail, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, oedd yn rheoli ac yn berchen ar y seilwaith.

Cynigiwyd derbyn yr adroddiad a phleidleisiwyd yn unfrydol o blaid hynny.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor wedi adolygu a chymeradwyo Adroddiad Rhagarweiniol y Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol.

## 8. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno’r adroddiad.

Cyflwynodd y Cynghorydd Fouweather Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2021/22 i’r Cyngor.

Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor roi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar y gwaith yr oedd wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf ac ar ei flaenraglen waith.

Roedd yr adroddiad blynyddol yn trafod y cyfnod o fis Tachwedd 2021 hyd fis Tachwedd 2022. Roedd y Pwyllgor yn grŵp gwleidyddol gytbwys a oedd yn cydweithio mewn ffordd amhleidiol i ystyried agweddau amrywiol ar y Cyfansoddiad, a materion eraill a oedd yn effeithio ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Fouweather y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Stowell-Corten.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cytuno ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor er mwyn bodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

9. **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**

Fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau, cyflwynodd yr Aelod Llywyddol yr adroddiad i'r Cyngor.

Roedd y Cynghorydd Cockeram yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor.

Dyma oedd nawfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, ac roedd yn trafod y cyfnod o fis Tachwedd 2021 hyd fis Tachwedd 2022, ac yn dilyn ymlaen o'r adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2021.

Yn flaenorol, roedd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar sail wirfoddol. Fodd bynnag, ers mis Mai 2022, roedd hi bellach yn ofyniad statudol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Yn ogystal â hynny, roedd yr Adroddiad Blynyddol statudol hwn yn cynnwys asesiad o'r graddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad o fewn eu grwpiau.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bum gwaith dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd cyfarfodydd cynharaf y Pwyllgor wedi cael eu cynnal o bell ond, ers mis Mai 2022, roedd y cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ar sail "hybrid", gyda rhai aelodau'n bresennol yn gorfforol ac eraill yn ymuno o bell.

Y llynedd, galwyd ar y Pwyllgor Safonau am y tro cyntaf i gynnal gwrandawiad ynghylch achos o gamymddwyn ac i orfodi cosb ar aelod etholedig. Eleni, roedd yn braf cael adrodd na chafodd, unwaith eto, unrhyw gwynion difrifol am gamymddwyn eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon dros y 12 mis diwethaf, ac na chafodd unrhyw gwynion eu cyfeirio i'w penderfynu gan y Pwyllgor o dan Gam 3 y Protocol Datrysiadau Lleol yn ystod 2021/22.

Roedd yr Adroddiad yn cadarnhau bod chwe chwyn wedi'u cyfeirio i sylw'r Ombwdsmon ynghylch Cynghorwyr y Ddinas dros y 12 mis diwethaf, ac y gwnaed pum cwyn dros y cyfnod hwn ynghylch cynghorwyr cymuned. Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i'r Cyngor, dim ond un gŵyn a oedd heb ei datrys ac ni chafodd yr un o'r 10 cwyn arall eu derbyn ar gyfer ymchwiliad.

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod ag arweinwyr y grwpiau yn gynharach yn y mis, ac roedd yn falch â lefel yr ymrwymiad a ddangoswyd a lefelau cyffredinol yr hyfforddiant yr oedd Cynghorwyr wedi'i dderbyn. Er hynny, byddai'n fuddiol cynnal sesiynau hyfforddi pellach ar y Cod Ymddygiad i'r Cynghorwyr hynny nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol yn yr hyfforddiant cynefino ar 16 Mai. Nid oedd hi'n ymddangos bod unrhyw broblemau o bwys o ran safonau ymddygiad na chwynion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cynnwys blaenraglen waith ddrafft ar gyfer y 12 mis nesaf. Byddai'r gofynion hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr y Ddinas, cynghorau cymuned a'u clercod yn parhau i gael eu monitro a'u hadolygu yn rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor.

Cynigiodd yr Aelod Llywyddol y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Harvey.

**Penderfynwyd:**
Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2021/22 a nodi'r flaenraglen waith.

10. **Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd: 18 Hydref 2022**

Roedd Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 18 Hydref wedi'u hatodi i bapurau'r Agenda.

Roedd y cofnodion yn cynnwys dau argymhelliad i'r Cyngor:

- Y dylai'r Cyngor fabwysiadu'n ffurfiol y Canllaw statudol i'r Cyfansoddiad, fel y'i cytunwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Y dylai'r Cyngor fabwysiadu'n ffurfiol y newidiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer rhannu swyddi'r Cabinet a phenodi Cynorthwywyr Gweithredol.

Cynigiodd y Cynghorydd Fouweather, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yr argymhellion yn ffurfiol, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Stowell-Corten. Cynhaliwyd pleidlais ar yr argymhellion a'u cymeradwyo yn sgil hynny.

**Penderfynwyd:**
- Y dylai'r Cyngor fabwysiadu'n ffurfiol y Canllaw statudol i'r Cyfansoddiad, fel y'i cytunwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;

Y dylai'r Cyngor fabwysiadu'n ffurfiol y newidiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer rhannu swyddi'r Cabinet a phenodi

11. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn dechrau ateb y cwestiynau, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol:

**Y Nadolig a Sadwrn Busnesau Bach**
Ddydd Sadwrn diwethaf, cynhaliwyd digwyddiad Cyfrif i Lawr at y Nadolig yng nghanol y ddinas. Roedd hi'n anhygoel gweld cynifer o bobl yn dod ynghyd i nodi dechrau dathliadau'r Ŵyl. Diolch i Casnewydd NAWR ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y prynhawn.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai eleni'n flwyddyn anodd i lawer - unigolion a busnesau fel ei gilydd, a pharhaodd i annog pobl i siopa'n lleol a gwario'n ddoeth.

I'r perwyl hwnnw, roedd y Cyngor hefyd yn cefnogi'r Sadwrn Busnesau Bach a fyddai'n cael ei gynnal ddydd Sul 3 Rhagfyr. Roedd Casnewydd yn ffodus iawn o gael busnesau bach ac annibynnol anhygoel a oedd yn cynnig ystod o wasanaethau a chynnyrch nad oedd modd i'r siopau cadwyn mwy eu hefelychu.

Roedd adloniant stryd wedi cael ei drefnu ar gyfer y diwrnod i ychwanegu at yr awyrgylch, a gobeithiwyd y byddai canol y ddinas yn orlawn o bobl yn cefnogi busnesau, ac o bosib yn cael hyd i anrhegion personol ac unigryw.

Byddai mwy o newyddion ar ein safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gwybodaeth gan ein masnachwyr lleol am eu cynigion arbennig eu hunain.

**Yr Angel Cyllyll**

Yng nghanol y ddinas dros y penwythnos, safai Angel Cyllyll trawiadol yn gadarn a Sgwâr Wysg.

Rydym wedi cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a ddaeth â'r ffigur goruchel hwn i'r ardal yn rhan o daith genedlaethol i atal trais.

Cafodd y cerflun 27 troedfedd ei wneud o fwy na 100,000 o gyllyll, a byddai'n sefyll yng Nghasnewydd hyd ddiwedd y mis, yn symbol amlwg i'n hatgoffa o effeithiau dinistriol trais ac ymddygiad ymosodol.

I gefnogi hyn, roedd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ac addysgiadol wedi cael eu trefnu, a'r gobaith oedd y byddai'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth ac yn cychwyn trafodaethau pwysig.

**Cymorth gyda chostau byw**

Yn gynharach yn y mis hwn cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad gwybodaeth costau byw yn theatr Glan yr Afon. Roedd nifer dda iawn o bobl yn bresennol ar y diwrnod, a chyda'i bartneriaid bu modd i'r Cyngor helpu llawer o bobl i dderbyn cymorth a chyngor a oedd yn dyngedfennol dros y cyfnod heriol hwn.

Roedd gwaith yn parhau yn gysylltiedig â hyn, a byddai gweithgareddau allgymorth pellach yn cael eu cynnal, ac adran gynghori benodol yn cael ei chynnwys ar wefan y Cyngor. Yn dilyn digwyddiad strategol gyda phartneriaid allweddol, roeddem hefyd yn datblygu ein gwaith cydgysylltiedig â phartneriaid i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu ein cymunedau.

**Diwrnod Hawliau Gofalwyr**

Eleni byddai Diwrnod Hawliau Gofalwyr yn cael ei gynnal ddydd Iau 24 Tachwedd, ac roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth ynghylch hawliau gofalwyr di-dâl a chydnabod eu cyfraniad i'n cymdeithas.

I nodi Diwrnod Hawliau Gofalwyr, byddai ein tîm cyswllt cymunedol y cynnal digwyddiad gwybodaeth yn Theatr Glan yr Afon, a byddai wrth law rhwng 1pm a 6pm i roi gwybodaeth a chyngor i ofalwyr di-dâl o bob oedran a chefndir.

Mae gofalwyr yn cyflawni rôl mor bwysig; gallai hynny olygu gofalu am rywun sy'n *****, yn anabl, sy'n profi salwch meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau neu sydd angen ychydig mwy o gymorth wrth heneiddio.[DVX21]

Anogodd yr Arweinydd pwy bynnag a allai fod mewn rôl ofalu i ddod i gwrdd â'r tîm a chael gwybod mwy am y gefnogaeth a'r cyngor a oedd ar gael iddynt.

Comisiynydd Trais Domestig - Diwrnod Rhuban Gwyn 25 Tachwedd #33 Her 15 diwrnod o weithredu

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

Cynghorydd M Evans:
Dros y degawd diwethaf bu mentrau ar waith i ddenu pobl i ganol y ddinas, dros gyfnod y Nadolig, fel digwyddiadau'r Nadolig a Sadwrn Busnesau Bach. I lawer o fasnachwyr, dyna'r adeg o'r flwyddyn a allai olygu bod eu busnes yn llwyddo neu'n methu, ac roeddent yn dibynnu ar fasnach i oroesi. Roedd ein cymdogion yn Sir Fynwy yn cynnig parcio am ddim a

bysus am ddim ar y penwythnos, yn ogystal â Thorfaen a Chaerffili. Cawsom fysiau am ddim y llynedd, a pharcio a theithio. Roedd gan Gaerdydd ddau safle winter wonderland. Yng Nghasnewydd byddai preswylwyr yn talu £2.50 i barcio. Ar sail hyn, beth oedd yr Arweinydd yn ei wneud i annog pobl i ymweld â chanol y ddinas y Nadolig hwn?

Ymateb:
Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith ei bod wedi derbyn adroddiad Ymwelwyr ar gyfer yr ŵyl fwyd, a ddangosai y bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a ddaeth i ganol y ddinas. Roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen i weld y ffigurau ar gyfer nifer y bobl a aeth i ddigwyddiad goleuadau'r Nadolig hefyd. Er hynny, roedd cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei wneud, yn enwedig ar hyn o bryd ac ystyried ein sefyllfa ariannol fel Awdurdod Lleol, a esboniwyd yn glir mewn fideo diweddar. Adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf ein Cabinet fod y Cyngor yn rhagweld £3m o orwariant yn y flwyddyn ariannol hon, a'n bod ar hyn o bryd yn edrych ar ddiffyg o £33m ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd unrhyw gefnogaeth ar ffurf cymhorthdal teithio, fel cyllid gan Lywodraeth Cymru neu Gomisiwn Burns yn cael ei groesawu, ond nid oeddem yn mynd i gynnig parcio am ddim dros y Nadolig.

Atodol:
Roedd Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili a chynghorau eraill cyfagos oll yn wynebu problemau cyllidebol ond yn dal i gynnig parcio am ddim i breswylwyr. Ym mis Gorffennaf adroddwyd tanwariant o £18.5m o'r llynedd. Dyma oedd yr amser pan fyddai cynghorau fel arfer yn edrych ymlaen at gynlluniau'r Nadolig, ac roedd tanwariant o £100,000 yng nghyllideb rheoli canol y ddinas yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Onid oedd hi'n bwysig darparu cludiant am ddim i breswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw, yn ogystal â helpu'r masnachwyr dros gyfnod y Nadolig.

Ymateb:
Nid oedd yr Arweinydd yn siarad ar ran cynghorau eraill. Roeddem yn gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau yng Nghasnewydd. Mae gennym danwariant iach. Fodd bynnag, oherwydd chwyddiant uchel a chostau byw, roedd yna alw ar wasanaethau. Roedd cost gofal wedi cynyddu'n sylweddol, 1,000 yn fwy o ddisgyblion mewn ysgolion, codiadau cyflog a chostau caffael gan y Cyngor. Nid preswylwyr yn unig oedd yn profi hyn ond y Cyngor hefyd. Roedd y Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i gynnal digwyddiadau, ond dim ond hyn a hyn y gallem ei wneud, ac ni fyddai parcio am ddim yn flaenoriaeth. Roedd y newid hinsawdd yn flaenoriaeth. Roedd y Cyngor yn fwy na pharod i wrando ar unrhyw awgrymiadau am gyllid ychwanegol. Adroddwyd yn y wasg leol mai Casnewydd oedd y bedwaredd ddinas orau yng Nghymru o ran trefniadau parcio yn ôl data'r ONS, yn nhermau mynediad a chostau.

Cynghorydd Whitehead:
Roedd hi'n hollbwysig i gynghorwyr ymdrin â phryderon a phroblemau'r preswylwyr, a chan gadw hynny mewn cof, roedd yn rhaid i gynghorwyr gysylltu â darparwyr gwasanaeth amrywiol. Yn anffodus, hap a damwain oedd cael ateb gan Wasanaethau Dinas Cyngor Dinas Casnewydd i unrhyw e-bost, ac weithiau gallai gymryd cryn amser i gael ateb. Roedd aelodau hefyd yn cael eu hatal rhag cysylltu'n uniongyrchol â Phenaethiaid Gwasanaeth.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch presenoldeb swyddogion mewn cyfarfodydd. Gallai preswylwyr hefyd ddefnyddio Ap Cyngor Dinas Casnewydd a oedd yn ei gwneud hi'n haws i breswylwyr gysylltu â'r Cyngor. Byddai'r Arweinydd hefyd yn gofyn i Bennaeth Gwasanaethau'r Ddinas yn ogystal â'r Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid i gysylltu â'r Cynghorydd Whitehead i drafod sut y gellid gwella gwasanaethau.

---

[DVX21]wall???

12. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Ceir 1 cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet:

**<u>Cwestiwn 1 – Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar</u>**

<u>Cynghorydd Routley</u>

Yng nghyfarfod diweddar y Cabinet, dywedasoch eich bod wedi cael adroddiadau am blant ysgol sy'n crynu gan newyn ac sy'n llwgu mewn rhai ysgolion.

Beth ydych chi, Aelod Cabinet, wedi'i wneud i godi'r mater hwn a lliniaru'r dioddefaint.

<u>Ymateb gan y Cynghorydd Davies</u>

Diolch ichi am eich cwestiwn, yr wyf yn falch o'i ateb.

Rydych chi wedi fy nyfynnu i heb esbonio'r cyd-destun pam fy mod yn siarad am newyn a thlodi ymhlith plant. Roeddwn yn ymateb i'r diweddariad a gyhoeddwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd ar ein hymateb i bwysau allanol sy'n effeithio ar Wasanaethau Cyngor. Mae'r papur yn rhoi disgrifiad eglur o effaith yr argyfwng costau byw ar ein cymunedau.

Yn wir, dros y 18 mis diwethaf, mae cymunedau ar draws Casnewydd yn wynebu pwysau ariannol digynsail yn deillio o gynnydd chwyddiant mewn costau ynni, bwyd, morgeisi a rhent, ynghyd â chostau eraill sy'n gysylltiedig â chadw chartref.

Ar hyn o bryd, mae sefyllfa ariannol y DU yn dal i fod ar ymyl y dibyn er gwaethaf datganiad yr hydref a gyhoeddwyd y dydd Iau diwethaf, a fydd yn gadael diffyg yng nghyllideb Cymru. Ni fydd yr £1.2 biliwn ychwanegol yn ymdrin â'r cynnydd mewn costau oherwydd y chwyddiant aruthrol, nac yn gwneud iawn am hynny, ac mae'r swm hwnnw mewn gwirionedd £300 miliwn yn llai na'r hyn a bennwyd y llynedd. Ar ben hynny, ar ôl y gyllideb hon dengys gwaith dadansoddi'r OBR yn glir y bydd incwm gwario gwirioneddol yn gostwng i'w lefel isaf ers dechrau cofnodion yr ONS yn 1956. Ar raddfa fyd-eang rydym yn colli tir o gymharu â'n partneriaid economaidd, a phwy sy'n goruchwylio'r llanast yma? Y Torïaid - deuddeng mlynedd o gamreolaeth ac aflerwch. Fel gweinyddiaeth Lafur yng Nghasnewydd, rydym yn gweithio'n galed i gefnogi ein preswylwyr a'u helpu i oroesi dros yr argyfwng hwn mewn costau byw. Rwy'n grediniol na fyddem yn gorfod gwneud hyn pe bai Llywodraeth Lafur mewn grym.

Gan ddychwelyd i'm sylwadau yng nghyfarfod y Cabinet wythnos diwethaf, mae'r camau rydym wedi'u cymryd hyd yma yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn helpu teuluoedd i fanteisio ar gymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â sesiynau galw heibio yn Pill ac ar Lan yr Afon lle bu Cyngor Dinas Casnewydd a'i bartneriaid yn rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad. Y bwriad yw cydgysylltu cymorth fel bod ein preswylwyr mwyaf difreintiedig ac agored i niwed yn cael y gefnogaeth a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Cynhaliwyd uwchgynhadledd yn ddiweddar er mwyn gallu cydgysylltu cynlluniau i sicrhau mynediad lleol at fanciau bwyd ac ystafelloedd cynnes yn barod am y gaeaf.

Yn fy ateb i'r Arweinydd yn y Cabinet, rhestrais y camau sy'n cael eu cymryd o fewn ein hysgolion i sicrhau bod plant yn cael eu bwydo a bod teuluoedd yn cael cymorth. Mynegais yn glir nad oeddwn, pan gefais fy ethol yn wreiddiol 10 mlynedd yn ôl, yn rhagweld y byddem yn ymweld ag ysgolion ac yn cael fy nghyflwyno i swyddogion cyswllt teuluoedd wedi'u cyflogi drwy gyllid grant i roi cefnogaeth i deuluoedd ar ffurf cyngor ariannol, cyngor tai a chysylltiadau â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, ac i gynnig gwasanaeth cwnsela lle bo perthynas rhieni wedi methu.

Yn ogystal â hynny, mae ysgolion yn cynnal banciau bwyd yn ogystal â llyfrgelloedd benthyg dillad ysgol lle gellir cyfnewid a rhannu dillad. Mae hyn yn cynnwys cotiau, esgidiau a chitiau ymarfer corff ac weithiau dillad ar gyfer y tu allan i'r ysgol. Rwyf wedi gweld peiriannau golchi fel bod plant yn gallu gwisgo dillad glân wrth i rieni gael trafferth gyda chostau trydan.

Yr hyn a ddwedais oedd na all plant ddysgu os ydynt yn llwglyd. Yr hyn a ddwedais hefyd oedd nad esgeulustod neu ddiffyg cariad oedd wrth wraidd hyn, ond bod rhieni yn ei chael hi'n anodd cael arian i roi bwyd ar y bwrdd. Nid yw hyn o reidrwydd yn ymwneud â budd-daliadau. Mae'r rhieni yn profi tlodi mewn gwaith. Oherwydd hynny mae ein hysgolion cynradd yn rhedeg clybiau brecwast, a llawer erbyn hyn yn agor ynghynt i sicrhau bod rhieni sy'n gweithio yn gallu gadael eu plant i gael eu bwydo cyn dechrau eu diwrnod ysgol.

Yn ogystal â hynny, rydym wedi gweld prydau ysgol yn cael eu cynnig am ddim i bawb yn ein hysgolion sylfaen ar hyn o bryd, a'r flwyddyn nesaf bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys cyfnod allweddol 2 ac wedyn ein hysgolion uwchradd. Menter gan Lywodraeth Cymru yr wyf yn falch o’i gweld yn cael ei chyflawni yng Nghasnewydd. Mae ein swyddogion wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ceginau a mannau bwyta yn ein hysgolion yn gallu darparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol o blant sy'n elwa ar y ddarpariaeth hon.

Rydym yn ffodus yng Nghymru, gan fod ein plant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn parhau i gael talebau yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae hyn yn darparu o leiaf £250 o dalebau archfarchnad ychwanegol i gartrefi teuluoedd yng Nghasnewydd.

Yn olaf, yn rhan o'n ffocws ar ddarparu i'r rhai mewn tlodi, a'u cefnogi, rwyf wedi gofyn am gael cynnal archwiliad o fewn ein hysgolion o'r modd y caiff cyllid grant ei wario i fynd i'r afael â'r agweddau gwaethaf ar dlodi sy'n amharu ar ddysgu. Rwyf eisoes wedi cael adroddiad interim yn ôl, ac mae rhai prosiectau a mentrau rhagorol yn cael eu cynnal gyda'n hysgolion, ond fy mwriad yw hyrwyddo rhannu arfer da a syniadau newydd.

Ar hyn, hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'n hathrawon a'r staff cymorth. Maen nhw wir yn mynd y tu hwnt i bob gofyn. Bob dydd maen nhw'n gweld effaith greulon yr argyfwng costau byw diangen hwn ar ein teuluoedd yng Nghasnewydd. Maen nhw'n anhygoel, a'u gwaith nhw sy'n cael effaith ar fywydau ein plant wrth iddyn nhw sicrhau eu bod yn cael bwyd cyn dechrau'r diwrnod ysgol.

Atodol:
Nid oedd unrhyw sôn am ddiogelu yn natganiad y Cynghorydd Davies. Roedd gennym ni i gyd ddyletswydd gofal a dylem gydweithio.

Ymateb:
Dyfynnodd y Cynghorydd Davies drawsgrifiad o'r sylwadau.  Nid oedd a wnelo hyn ag esgeuluso plant na diffyg cariad, ond roedd yn deillio yn hytrach o ddiffyg adnoddau i blant.

Nid oedd unrhyw gwestiynau nac eitemau pellach, ac felly datganodd yr Aelod Llywyddol fod y cyfarfod ar ben.

The meeting terminated at Time Not Specified